Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

BWRDD YR IAITH GYMRAEG • WELSH LANGUAGE BOARD

Cynllun Cydymffurfiaeth Bwrdd yr Iaith Gymraeg

Cynnwys

1. Rhagair a Chyd-destun tud.3

2. Nod ac Amcanion Gwaith Cydymffurfiaeth y Bwrdd tud.4

3. Cyngor ac Arweiniad tud.6

4. Cynnal Ymchwiliadau Statudol tud.7

5. Cysylltu a Chyfathrebu tud.13

1 Rhagair a chyd-destun

1.1 Bwriad y canllaw hwn yw egluro i ddefnyddwyr gwasanaeth; cyrff cyhoeddus a phartïon eraill sut fydd Bwrdd yr Iaith Gymraeg (y Bwrdd) yn gweithredu ei bwerau statudol er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â chynlluniau iaith Gymraeg.

1.2 Mae dyletswydd ar gyrff cyhoeddus a hysbysir gan y Bwrdd, i baratoi cynllun iaith Gymraeg statudol yn unol â Deddf yr Iaith Gymraeg 1993 (y Ddeddf).

1.3 Mae adran 21 y Ddeddf hefyd yn gosod dyletswyddau ar Gyrff y Goron sydd wedi mabwysiadu, neu'n bwriadu mabwysiadu cynllun iaith Gymraeg.

1.4 Dylai cyrff cyhoeddus baratoi cynllun iaith Gymraeg i bennu'r mesurau y bwriedir eu cymryd wrth gynnal busnes cyhoeddus yng Nghymru er mwyn gweithredu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar y sail eu bod yn gyfartal.

1.5 Mae cynlluniau iaith Gymraeg yn cynnwys mesurau ynglŷn â defnyddio'r iaith Gymraeg mewn cysylltiad â darparu gwasanaethau i'r cyhoedd yng Nghymru.

1.6 Y rheini sy'n darparu gwasanaethau sy'n bennaf gyfrifol am sicrhau ystod a safon y gwasanaethau hynny, gan weithio'n unol â'r fframwaith statudol a chanllawiau'r Bwrdd. Mae'n rhaid i'r cyrff cyhoeddus fynd ati mewn modd effeithiol i gynllunio ac i ddarparu (neu i gomisiynu) gwasanaethau, i reoli perfformiad ac i fod yn atebol i'r cyhoedd. Rôl y Bwrdd yw arolygu ac ymchwilio'n annibynnol, gan ddefnyddio arbenigedd proffesiynol a phwerau statudol.

1.7 Adrannau 17 i 20 y Ddeddf sy'n amlinellu dyletswyddau a phwerau mewn perthynas â sicrhau cydymffurfiaeth gyda chynlluniau iaith Gymraeg[1], a gellir rhannu'r broses yn dair rhan sef:

- Delio â Chwynion (adran 18)
- Cynnal Ymchwiliadau Statudol (adrannau 17 a 19)
- Gorfodaeth (adran 20)

1.8 Y Bwrdd sy'n gyfrifol am weithredu'r ddwy ran gyntaf, a Gweinidog dros Dreftadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am weithredu'r elfen orfodaeth.

[1] Nid yw adran 20 y Ddeddf yn berthnasol i Gyrff y Goron

2 Nod ac Amcanion Gwaith Cydymffurfiaeth y Bwrdd

2.1 Nod cyffredinol y Bwrdd yw gweithio er lles a dyfodol yr iaith Gymraeg. Bydd gwaith cydymffurfiaeth y Bwrdd yn cyfrannu tuag at y nod cyffredinol drwy sicrhau fod ymrwymiadau mewn cynlluniau iaith Gymraeg statudol yn cael eu parchu a'u gweithredu.

2.2 Bydd y Bwrdd yn cyflawni hyn drwy weithredu'r amcanion canlynol:

a. ymchwilio i gwynion mor drylwyr ag y bydd angen ac mor gyflym â phosibl
b. codi ymwybyddiaeth y cyhoedd o waith cydymffurfiaeth y Bwrdd a sicrhau fod dulliau hwylus ac eglur iddynt gysylltu gyda'r Bwrdd
c. cynorthwyo sefydliadau i ddeall a chwrdd â'u dyletswyddau
ch. defnyddio gwersi a ddysgwyd o ymchwiliadau a chwynion i hybu arferion da er mwyn gwella ansawdd a safon gwasanaethau iaith Gymraeg sefydliadau
d. sicrhau rheolaeth effeithiol o gyfrifoldebau cydymffurfiaeth

Egwyddorion

2.3 Bydd y Bwrdd yn gweithredu'n deg, yn gymesur ac yn hyblyg yn ei ymwneud â chyrff sy'n gweithredu cynllun iaith Gymraeg. Nid yw hynny'n golygu fodd bynnag y bydd cyrff yn cael eu rhyddhau o'u dyletswyddau i gydymffurfio gyda'r Ddeddf.

2.4 Wrth weithredu ei rôl o arolygu cydymffurfiaeth a gweithio tuag at y nod a'r amcanion uchod, bydd y Bwrdd yn gweithredu yn unol â'i werthoedd corfforaethol cyhoeddus ei hun[2]. Bydd hefyd yn dilyn yr egwyddorion isod sy'n seiliedig ar Egwyddorion Gweinyddiaeth Dda Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru. Bydd y Bwrdd yn:

a. **sicrhau fod ei weithredu yn unol â'r gyfraith** - bydd y Bwrdd yn gweithredu yn unol â'i ddyletswyddau yn y Ddeddf ac unrhyw ddeddfau eraill perthnasol.
b. **canolbwyntio ar y dinesydd** – bydd y Bwrdd yn rhoi blaenoriaeth uchel i gwynion ac yn ymdrechu i'w datrys mor gyflym â phosibl gyda golwg ar atebion hirdymor yn ogystal ag atebion penodol i gwynion.
c. **bod yn agored ac atebol** – bydd y Bwrdd yn egluro ei ddulliau gweithredu i'r cyhoedd ac i gyrff sy'n gweithredu cynllun iaith ac yn cadw cyswllt rheolaidd gyda phartïon perthnasol wrth weithredu camau'r broses cydymffurfiaeth. Bydd y Bwrdd fel arfer yn cyhoeddi adroddiadau ar ganlyniadau ymchwiliadau ar ei wefan.

[2] Rhestrir y gwerthoedd hynny ar wefan y Bwrdd – www.byig-wlb.org.uk

ch. **ymddwyn yn deg ac yn gymesur** - bydd y Bwrdd yn rhoi cyfle teg i gyrff ac i achwynwyr gyflwyno tystiolaeth ac ymateb i gwynion. Un o amcanion y Bwrdd yw ymchwilio i gwynion mor drylwyr ag y bydd angen ac mor gyflym â phosibl. Wrth wneud hynny bydd y Bwrdd yn ymddwyn yn gymesur gan ystyried amgylchiadau'r achos a beth sy'n debygol o gael yr effaith gorau er lles a dyfodol yr iaith Gymraeg.

d. **cywiro pethau yn ôl yr angen** – bydd y Bwrdd yn rhoi cyfle teg i gyrff ac i achwynwyr (os yn berthnasol) i wirio ffeithiau mewn adroddiadau ar ganfyddiadau ymchwiliad cyn cyhoeddi. Bydd y Bwrdd yn ystyried pob darn o dystiolaeth berthnasol a gyflwynir ac yn cywiro canfyddiadau yn ôl yr angen yn dilyn hynny.

dd. **ceisio gwelliant parhaus** – bydd y Bwrdd yn ceisio sicrhau fod ei waith cydymffurfiaeth yn cyfrannu tuag at y nod o weithio er lles a dyfodol yr iaith Gymraeg. Bydd yn anelu i sicrhau fod ei waith yn cael effaith gadarnhaol hirdymor ar drefniadau a gwasanaeth iaith Gymraeg sefydliadau a bydd hefyd yn anelu i wella ac i ddysgu o'i brofiadau. I'r perwyl hwn bydd y Bwrdd yn croesawu sylwadau gan y cyhoedd a gan bartïon eraill ar sut i wella ei berfformiad.

3 Cyngor ac Arweiniad

3.1 Prif ddiben y canllaw hwn yw egluro sut fydd y Bwrdd yn gweithredu ei bwerau cydymffurfiaeth o dan y Ddeddf. Mae'n bwysig nodi er hynny fod y Bwrdd hefyd yn ymgymryd â llawer o waith cynghori a chefnogi gyda'r bwriad o osgoi sefyllfaoedd o ddiffyg cydymffurfiaeth a chynyddu defnydd o'r iaith Gymraeg drwy ddulliau eraill.

3.2 Os nad yw cyrff cyhoeddus a chyrff y Goron yn ymwybodol neu'n deall eu dyletswyddau cyfreithiol yn llawn yna ni fydd modd iddynt gydymffurfio'n effeithiol gyda'r Ddeddf. Cyfrifoldeb y cyrff cyhoeddus eu hunain yw sicrhau ymwybyddiaeth a dealltwriaeth eu staff, ond gall y Bwrdd hwyluso'r broses drwy gynnig cyngor a chefnogaeth briodol ac addas.

3.3 Cyhoeddir cyngor statudol ar weithredu'r egwyddor o drin y Gymraeg a'r Saesneg ar sail gyfartal o dan adran 3 y Ddeddf ac mae disgwyl i gyrff cyhoeddus ystyried y cyngor a gyhoeddir. Mae'r Bwrdd eisoes wedi cyhoeddi nifer o ddogfennau cyngor i gynorthwyo cyrff i weithredu elfennau penodol o gynlluniau iaith Gymraeg, megis "*Cyngor ar Brif Ffrydio'r Iaith Gymraeg*" a "*Dyfarnu Grantiau, Benthyciadau a Nawdd – Materion yn Ymwneud â'r Gymraeg*". Mae'r Bwrdd hefyd wedi cyhoeddi cyngor ar feysydd datblygol nad ydynt o reidrwydd yn fater cydymffurfiaeth â chynlluniau iaith Gymraeg, megis cyngor ar "*Hyrwyddo a Hwyluso Gweithleoedd Dwyieithog*".

3.4 Gellir canfod copïau o'r dogfennau hyn a nifer o gyhoeddiadau eraill defnyddiol ar wefan y Bwrdd neu drwy gysylltu â'r Bwrdd yn uniongyrchol.

3.5 Mae'r Bwrdd hefyd yn rhoi cyngor ac arweiniad i gyrff cyhoeddus a phartïon eraill drwy ddulliau anffurfiol. Er enghraifft cynhelir nifer o seminarau a chyfarfodydd unigol gydag ymarferwyr er mwyn trafod gofynion statudol a rhannu gwybodaeth am arfer da. Mae cyswllt cyson rhwng swyddogion y Bwrdd a swyddogion cyrff cyhoeddus ac mae'r gwaith datblygol yma'n gwneud cyfraniad sylweddol i'r maes arolygu a chydymffurfiaeth.

4 Cynnal ymchwiliadau statudol

4.1 Lle ymddengys i'r Bwrdd, boed yn sgil cwyn neu fel arall, y gall corff cyhoeddus fod wedi methu â chyflawni cynllun iaith Gymraeg, caiff y Bwrdd gynnal ymchwiliad statudol yn unol ag adran 17 y Ddeddf er mwyn gweld a fu methiant. Er bod mwyafrif ei ymchwiliadau hyd yma wedi bod yn sgil cwyn gan aelodau o'r cyhoedd mae'r Bwrdd hefyd wedi cynnal ymchwiliadau statudol yn sgil derbyn tystiolaeth arall a oedd yn amlygu methiant i weithrediad cynllun iaith Gymraeg.

4.2 Mae'r adran hon yn egluro beth yw'r camau a ddilynir a'r meini prawf a ddefnyddir er mwyn dod i benderfyniad ynglŷn â chynnal ymchwiliad statudol. Mae hefyd yn egluro'r camau posibl ar ôl cynnal ymchwiliad.

Cynnal ymchwiliad statudol i gŵyn

4.3 Er mwyn cwrdd â'r nod a'r amcanion yn adran 2 y cynllun hwn, bydd y Bwrdd yn anelu i sicrhau datrysiad boddhaol i gwynion mor gyflym â phosibl. Hyd yma mae'r Bwrdd wedi llwyddo i ddatrys mwyafrif helaeth y cwynion a dderbyniwyd heb gynnal ymchwiliad statudol llawn. Yn arferol bydd y Bwrdd yn dilyn y tri cham canlynol wrth ddelio â chwynion.

Y cam cyntaf yw ***dilysu'r gŵyn*** - bydd y Bwrdd yn ystyried a yw'r gŵyn yn ddilys yn unol â'i ddiffiniad o gŵyn isod:

"*Cwyn yw honiad y mae disgwyl i'r Bwrdd ymateb iddo am fethiant corff sydd â chynllun iaith Gymraeg i gyflawni unrhyw agwedd(au) ar ei gynllun."*

Yr ail gam yw ***casglu tystiolaeth a gwybodaeth*** briodol – bwriad y cam hwn yw ceisio cael datrysiad cyflym i gŵyn a galluogi'r Bwrdd i lunio barn ynghylch a oes angen cynnal ymchwiliad statudol llawn. Bydd y Bwrdd yn ystyried a oes ganddo ddigon o dystiolaeth i allu penderfynu, a bydd yn casglu tystiolaeth bellach gan y sefydliad, yr achwynydd neu bartïon eraill yn ôl yr angen. Bydd yn arfer safonol gan y Bwrdd i roi cyfle rhesymol i gorff ymateb i honiadau'r gŵyn gan geisio sicrhau datrysiad boddhaol a chyflym er budd yr achwynydd.

Y trydydd cam yw ***gwneud penderfyniad*** - ar sail y dystiolaeth a gasglwyd yng ngham dau, bydd y Bwrdd yn penderfynu unai i gau'r gŵyn neu i gynnal ymchwiliad statudol llawn. Os nad oes tystiolaeth fod sefydliad wedi methu cydymffurfio neu os yw'r gŵyn wedi ei datrys yn foddhaol yna bydd y Bwrdd yn cau'r gŵyn ac yn ysgrifennu at yr achwynydd i egluro.

4.4 Ymhob cam o'r broses bydd y Bwrdd yn cadw mewn cyswllt rheolaidd gyda'r achwynydd a'r corff o dan sylw.

Cynnal ymchwiliad statudol ar sail tystiolaeth arall

4.5 Gall y Bwrdd gynnal ymchwiliad yn sgil tystiolaeth arall o fethu cydymffurfio, megis gwybodaeth mewn adroddiad monitro; gwybodaeth yn dilyn arolwg; neu wybodaeth gan aelodau o'r cyhoedd neu bartïon eraill nad yw'n cyfrif fel "cwyn ffurfiol". Mae'r Ddeddf yn rhoi cryn ddisgresiwn i'r Bwrdd benderfynu pa dystiolaeth "arall" sy'n gymwys ac nid yw'r cynllun hwn yn bwriadu cyfyngu ar y disgresiwn hwnnw. Er hynny mae'r Bwrdd yn ymrwymedig i ddilyn yr un egwyddorion a gwerthoedd beth bynnag yw'r sail ar gyfer cynnal ymchwiliad.

4.6 Pan fydd y Bwrdd yn derbyn tystiolaeth yn awgrymu fod methiant i gyflawni cynllun iaith wedi digwydd, yn arferol bydd yn dilyn yr un camau cychwynnol ag y byddai'n ddilyn wrth ddelio â chwyn. Er enghraifft, bydd y Bwrdd yn dilysu'r dystiolaeth yn y lle cyntaf cyn mynd ymlaen i gasglu rhagor o dystiolaeth a gwybodaeth. Bydd hefyd yn rhoi cyfle rhesymol i'r corff cyhoeddus ymateb i dystiolaeth neu honiad.

4.7 Bydd y Bwrdd yn ymddwyn yn gymesur ac yn ystyried pa gamau sydd fwyaf priodol ac yn fwyaf tebygol o gyfrannu'n adeiladol er lles y Gymraeg.

4.8 Yn achos tystiolaeth o ddiffyg cydymffurfiaeth mewn adroddiadau monitro neu waith monitro arall, bydd y Bwrdd fel arfer ac yn y lle cyntaf yn ceisio datrysiad drwy lunio cynllun gwaith neu gytuno targedau penodol gyda chyrff i sicrhau cynnydd. Ni fydd hynny'n briodol ymhob achos fodd bynnag, ac os oes tystiolaeth o ddiffygion difrifol, pellgyrhaeddol neu dystiolaeth o ddiffygion yn cael eu hailadrodd, yna gallai fod yn fwy addas i gynnal ymchwiliad statudol.

Meini prawf ar gyfer cynnal ymchwiliad statudol

4.9 Er mwyn dod i benderfyniad ynglŷn â chynnal ymchwiliad statudol llawn, bydd y Bwrdd yn y lle cyntaf yn ystyried a yw ymateb y corff i'r gŵyn neu i'r dystiolaeth "arall" a gyflwynwyd yn foddhaol. Os yw tystiolaeth yn amlygu diffyg cydymffurfiaeth bydd y Bwrdd yn disgwyl i gyrff weithredu'n gyflym ac yn rhagweithiol er mwyn unioni'r sefyllfa.

4.10 Bydd y Bwrdd yn ystyried y ffactorau canlynol er mwyn penderfynu a yw corff wedi ymateb i gŵyn neu dystiolaeth arall o fethiant yn foddhaol:

a. A yw'r corff wedi datrys yr achos penodol sydd dan sylw ac wedi darparu tystiolaeth briodol i'r Bwrdd?
b. A yw'r corff wedi cydnabod ei fethiant ac (os yn berthnasol) wedi ymddiheuro i'r achwynydd am ei fethiant?
c. A yw'r corff wedi ymrwymo i roi camau yn eu lle er mwyn sicrhau nad yw'r diffyg yn digwydd eto yn y dyfodol? A oes gan y Bwrdd dystiolaeth ddigonol fod hynny wedi digwydd?
ch. A yw'r corff wedi gweithredu yn unol â'i gynllun iaith Gymraeg wrth ymdrin â'r gŵyn a/ neu wedi ymateb i ohebiaeth o fewn cyfnod rhesymol o amser?

4.11 Os nad yw sefydliad yn cynnig tystiolaeth i ddangos ei fod wedi cymryd y camau uchod bydd y Bwrdd yn cynnal ymchwiliad statudol oni bai fod rhesymau arbennig i beidio.

4.12 Os yw corff cyhoeddus wedi gweithredu'r camau uchod mae'n bosibl na fydd y Bwrdd am gymryd camau pellach. Er hynny mewn amgylchiadau arbennig neu os nad yw corff wedi gweithredu'r camau i gyd neu'n llawn, mae'n bosibl bydd y Bwrdd yn penderfynu cynnal ymchwiliad statudol. Bydd y Bwrdd yn ystyried y meini prawf canlynol wrth ddod i benderfyniad:

Traweffaith

a. A yw'r gŵyn / tystiolaeth o fethiant yn debygol o effeithio ar nifer fawr o bobl, neu a yw'r Bwrdd wedi derbyn nifer o gwynion am yr un mater?

b. A yw'n achos difrifol / brys - e.e. achos sy'n gallu effeithio ar iechyd unigolyn neu'n achos sy'n dilyn amserlen gaeth sy'n golygu gorfod ymateb yn gadarn ac ar frys?

c. A yw'n achos strategol pwysig - e.e. yn amlygu diffyg mewn penderfyniad polisi a allai gael effaith andwyol hirdymor ar ddarpariaeth gwasanaethau cyfrwng Cymraeg?

Tebygolrwydd/ Risg

ch. A yw'r diffyg wedi digwydd o'r blaen yn yr un sefydliad? A yw'n debygol fod y diffyg yn mynd i ddigwydd eto?

Tegwch a chymesuredd

d. A fyddai cynnal ymchwiliad yn gymesur? H.y. beth yw amgylchiadau'r sefydliad a natur/ graddfa'r methiant? Ers pryd mae cynllun iaith Gymraeg yn weithredol?

dd. A fyddai cynnal ymchwiliad statudol llawn a'r effaith tebygol yn cyfiawnhau'r gost a'r defnydd adnoddau i'r Bwrdd?

Gweinyddiaeth

e. A yw'r achos wedi cymryd cyfnod afresymol o amser i'w datrys ac yn amlygu diffyg systemau effeithiol?

f. A oes tystiolaeth gan reoleiddwyr neu bartïon eraill yn amlygu diffygion pellach, neu'n cadarnhau diffygion honedig?

4.13 Nid yw'r meini prawf a amlinellir uchod yn cyfyngu ar allu'r Bwrdd i ystyried materion eraill wrth ddod i benderfyniad. Mae amgylchiadau pob achos yn wahanol a gallai ystyriaethau eraill fod yn berthnasol mewn rhai achosion.

4.14 Mae'r penderfyniad i gynnal ymchwiliad statudol wedi ei ddirprwyo i Gadeirydd a Phrif Weithredwr y Bwrdd a bydd swyddogion y Bwrdd yn ystyried y meini prawf uchod ac unrhyw faterion eraill perthnasol wrth eu cynghori.

4.15 Os bydd y Bwrdd yn penderfynu cynnal ymchwiliad statudol, yna bydd yn rhoi gwybod i'r corff dan sylw ac i'r achwynydd (os yn berthnasol) drwy lythyr gan egluro'i resymau dros wneud hynny.

Penderfynu peidio ag ymchwilio

4.16 Pan fydd y Bwrdd yn penderfynu peidio ag ymchwilio i gŵyn ffurfiol, bydd yn egluro wrth yr achwynydd ei resymau dros wneud hynny. Pan fo'n briodol bydd y Bwrdd hefyd yn cysylltu gyda'r corff o dan sylw.

Cynnal Ymchwiliad Statudol

4.17 Mae adran 17 y Ddeddf yn rhoi disgresiwn i'r Bwrdd benderfynu ar y drefn ar gyfer cynnal ymchwiliad statudol. Wrth wneud hynny dylai'r Bwrdd ystyried yr hyn sy'n briodol o dan amgylchiadau'r achos.

4.18 Gall y Bwrdd er enghraifft benderfynu cynnal ymchwiliad statudol yn gyhoeddus neu'n breifat. Trefn arferol y Bwrdd fydd cynnal ymchwiliadau'n breifat oni bai ei fod o'r farn fod budd cyhoeddus amlwg i gynnal yr ymchwiliad yn gyhoeddus. Gallai hefyd fod yn angenrheidiol i gynnal ymchwiliad yn gyhoeddus mewn amgylchiadau ble nad yw'r corff dan sylw yn cydweithredu'n llawn gyda'r ymchwiliad a ble mae angen defnyddio dulliau eraill er mwyn casglu tystiolaeth.

4.19 Gall y Bwrdd benderfynu cynnal ymchwiliad statudol ei hun drwy roi cyfarwyddyd i'w swyddogion, neu gall y Bwrdd gomisiynu parti allanol i gynnal yr ymchwiliad (neu ran o'r ymchwiliad) ar ei ran. Bydd y Bwrdd yn ystyried amgylchiadau'r achos unigol er mwyn dod i benderfyniad ar y trywydd mwyaf addas.

4.20 Bydd y Bwrdd yn cadw mewn cyswllt rheolaidd gyda'r corff o dan sylw wrth gynnal ymchwiliad statudol a gyda'r achwynydd (os yn berthnasol).

4.21 Bydd y Bwrdd hefyd yn rhannu adroddiad drafft o ganfyddiadau'r ymchwiliad gyda'r corff o dan sylw a gyda'r achwynydd (os yn berthnasol) er mwyn rhoi cyfle rhesymol iddynt wirio ffeithiau. Bydd y Bwrdd yn ystyried unrhyw sylwadau ac addasiadau ac yn trafod ymhellach gyda'r gwahanol bartïon pe bai angen. Y Bwrdd fydd yn penderfynu ar gynnwys terfynol yr adroddiad.

Argymhellion er mwyn cywiro methiant

4.22 Lle bydd y Bwrdd, ar ôl cwblhau ymchwiliad yn fodlon bod y corff o dan sylw wedi methu a chyflawni ei gynllun iaith Gymraeg, caiff y Bwrdd gynnwys argymhellion yn yr adroddiad ynghylch camau i'w cymryd gan y corff er mwyn cywiro'r methiant neu osgoi'r methiant yn y dyfodol (adran 19(3) y Ddeddf).

4.23 Bydd y Bwrdd yn cynnull panel arbennig i drafod adroddiadau ymchwiliad ac i gytuno ar argymhellion priodol. Caiff yr awdurdod i benderfynu ar argymhellion ei ddirprwyo i'r panel hwn. Bydd yr argymhellion yn berthnasol i'r ymchwiliad a bydd y Bwrdd yn rhoi cyfle rhesymol i'r corff dan sylw ymateb i'r argymhellion.

Cyhoeddi adroddiad ar ganfyddiadau ymchwiliad

4.24 Mae dyletswydd ar y Bwrdd (yn unol ag adran 19 y Ddeddf) i anfon adroddiad am ganlyniadau'r ymchwiliad at y corff o dan sylw; Gweinidog dros Dreftadaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ac, lle cynhelir ymchwiliad yn sgil cwyn, at yr achwynydd.

4.25 Mater i'r Bwrdd yw penderfynu sut i gyhoeddi adroddiad ac a ddylid ei rannu ymhellach. Yn arferol ac yn unol â'r egwyddor o fod yn agored ac yn atebol, bydd y Bwrdd yn cyhoeddi adroddiadau ymchwiliad statudol ar ei wefan. Bydd y Bwrdd yn egluro ei fwriad i gyhoeddi wrth y corff o dan sylw ac, lle cynhelir ymchwiliad yn sgil cwyn, wrth yr achwynydd.

4.26 Mae'n bosibl bydd rhai achosion yn codi fydd o ddiddordeb cyhoeddus sylweddol, neu fydd eisoes wedi derbyn sylw yn y wasg. Gallai'r Bwrdd benderfynu o dan amgylchiadau o'r fath y byddai'n briodol i wneud sylw cyhoeddus pellach ynglŷn â rhai adroddiadau.

4.27 Gallai'r Bwrdd benderfynu o dan amgylchiadau eraill na fyddai'n briodol cyhoeddi adroddiad cyflawn neu ran o adroddiad o gwbl. Er enghraifft, mae'n bosibl bydd rhai ymchwiliadau yn delio â materion sensitif, neu'n enwi unigolion penodol. Gallai'r Bwrdd benderfynu peidio cyhoeddi adroddiad, neu gyhoeddi crynodeb o'r adroddiad o dan amgylchiadau o'r fath.

Camau yn dilyn adroddiad ymchwiliad

4.28 Bydd y Bwrdd yn disgwyl derbyn tystiolaeth o gynnydd a chyflawniad gan y corff o dan sylw am bob un o'r argymhellion a gyflwynir mewn adroddiad ymchwiliad.

4.29 Yn arferol bydd yr argymhellion yn nodi dyddiad targed ac yn nodi sut y dylid cyflwyno tystiolaeth o gynnydd i'r Bwrdd, er enghraifft drwy gynnwys diweddariad mewn adroddiad monitro blynyddol. Fel arall bydd angen i'r Bwrdd a'r corff o dan sylw ddod i gytundeb ar y dull mwyaf priodol o adrodd ar gynnydd.

4.30 Mae'n bosibl o bryd i'w gilydd bydd y Bwrdd yn trafod adroddiadau ymchwiliadau sydd wedi dod i ben gyda gwahanol bartïon er mwyn gwella a dysgu o brofiadau.

Cyfeirio achos at y Gweinidog - gorfodaeth

4.31 Os ymddengys i'r Bwrdd fod corff cyhoeddus wedi methu â chymryd unrhyw gamau argymhellwyd mewn adroddiad ymchwiliad, caiff y Bwrdd gyfeirio'r mater at y Gweinidog dros Dreftadaeth yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

4.32 Mater i'r Gweinidog fydd penderfynu ar unrhyw gamau pellach. Er hynny os yw'r Gweinidog yn fodlon fod methiant wedi bod ar ran y cyrff cyhoeddus, yna mae adran 20 y Ddeddf yn galluogi'r Gweinidog i roi cyfarwyddiadau cyfreithiol i'r corff o dan sylw.

4.33 Gellir gorfodi unrhyw gyfarwyddiadau o'r fath drwy gyfrwng gorchymyn gorfodol.

4.34 Dim ond i gyrff cyhoeddus sydd â chynllun iaith Gymraeg wedi ei gymeradwyo o dan Adran 14(1) y Ddeddf y mae'r adran hon yn berthnasol. Nid yw'r Ddeddf yn galluogi'r Bwrdd i gyfeirio achosion am gyrff y Goron at y Gweinidog dros Dreftadaeth.

Ystyriaethau eraill

4.35 Nid yw darpariaeth y Ddeddf yn galluogi'r Bwrdd i gwrdd â dyheadau'r cyhoedd bob amser. Mae ffiniau'r ddeddfwriaeth gyfredol yn golygu na all y Bwrdd er enghraifft fynnu fod sefydliadau yn cydweithredu mewn ymchwiliadau statudol drwy ddarparu gwybodaeth a thystiolaeth yn ôl yr angen. Mae'r Bwrdd felly ar adegau yn ddibynnol ar gydweithrediad sefydliadau a'u hymrwymiad i weithredu a gwella er lles y Gymraeg.

4.36 Mae'n anorfod hefyd fod yn rhaid i'r Bwrdd ystyried adnoddau wrth ddelio â chwynion a chynnal ymchwiliadau statudol. Bydd y Bwrdd yn ymdrechu i ymchwilio'n drylwyr i bob achos dilys. Er hynny, mae'n bosibl fydd ystyriaethau adnoddau a'r angen i weithio'n ddarbodus yn gorfodi'r Bwrdd i flaenoriaethu achosion ar adegau ac ystyried dulliau eraill o ddylanwadu er lles y Gymraeg.

5 Cysylltu a chyfathrebu

5.1 Bwriad y Bwrdd yw bod yn agored ac yn atebol wrth weithredu ei gyfrifoldebau arolygu cydymffurfiaeth. Mae'r cynllun hwn yn cyfrannu tuag at hynny drwy egluro'r camau a'r meini prawf cyffredinol a ddefnyddir wrth weithredu adrannau 17-20 y Ddeddf.

5.2 Mae cyfathrebu dwy ffordd yn bwysig ac anogwn bob corff sy'n gweithredu cynllun iaith Gymraeg i roi gwybod i'r Bwrdd mor fuan â phosibl os oes amheuaeth fod penderfyniad neu ddatblygiad newydd yn debygol o effeithio'n andwyol ar ei allu i gydymffurfio â'i gynllun. Gallai cyswllt agored a buan gyda'r Bwrdd ynghyd â bwriad i weithredu'n adeiladol er budd y Gymraeg, osgoi camau cyfreithiol yn y pen draw.

5.3 Mae rhagor o fanylion am waith y Bwrdd, ynghyd â dogfennau cyngor ac adroddiadau ymchwiliadau ar gael ar wefan y Bwrdd – www.byig-wlb.org.uk. Fel arall, os oes gennych gwestiwn penodol am y cynllun hwn, yna mae croeso i chi gysylltu â Thîm Cynlluniau Iaith y Bwrdd (manylion isod).

Tîm Cynlluniau Iaith
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Siambrau'r Farchnad
5/7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd
CF10 1AT
02920 878000

Tîm Cynlluniau Iaith
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
Yr Hen Argraffdy
Ffordd Santes Helen
Caernarfon
LL55 2YD
01286 684700